Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

# Hybu camu ymlaen mewn swydd mewn sectorau cyflog isel

## Atodiad technegol

**Helen Hodges, Jonathan Webb ac Alison Parken**

Medi 2018

# Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Sefydlwyd Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ym mis Hydref 2017. Ei chenhadaeth yw gwella'r broses o lunio polisïau a gwasanaethau cyhoeddus trwy gynorthwyo gweinidogion a gwasanaethau cyhoeddus i gael mynediad at dystiolaeth annibynnol fanwl ynglŷn â'r hyn sy'n gweithio.

Mae'r Ganolfan yn cydweithio ag ymchwilwyr blaenllaw ac arbenigwyr polisi eraill i gyfosod a defnyddio'r dystiolaeth sydd ar gael ac amlygu bylchau lle mae angen cynhyrchu gwybodaeth newydd.

Mae'r Ganolfan yn annibynnol ar y llywodraeth ond mae'n gweithio'n agos gyda llunwyr polisi ac ymarferwyr i ddatblygu ffyrdd newydd o feddwl am sut i fynd i'r afael â heriau strategol ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol, addysg, tai, yr economi a chyfrifoldebau datganoledig eraill. Mae'n:

- Cynorthwyo Gweinidogion Llywodraeth Cymru i amlygu, cyrchu a defnyddio tystiolaeth awdurdodol ac arbenigedd annibynnol sy'n gallu helpu i lywio a gwella polisi;
- Gweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus i gyrchu, cynhyrchu, gwerthuso a chymhwyso tystiolaeth ynglŷn â'r hyn sy'n gweithio wrth fynd i'r afael â heriau economaidd a chymdeithasol allweddol; ac yn
- Defnyddio ei gwaith gyda Gweinidogion a gwasanaethau cyhoeddus i ddatblygu dealltwriaeth o sut mae tystiolaeth yn gallu llywio a gwella'r broses o lunio polisïau a gwasanaethau cyhoeddus a chyfrannu at ddamcaniaethau ynghylch llunio a gweithredu polisïau.

Trwy secondiadau, lleoliadau PhD a'i rhaglen Prentisiaeth Ymchwil, mae'r Ganolfan hefyd yn helpu i gynyddu capasiti ymhlith ymchwilwyr i ymwneud â gwaith ymchwil perthnasol i bolisi sy'n cael dylanwad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar ein gwefan [www.wcpp.org.uk](http://www.wcpp.org.uk)

## Arianwyr Craidd

Sefydlwyd **Prifysgol Caerdydd** ym 1883. Mae'r Brifysgol, sydd wedi'i lleoli mewn prifddinas ffyniannus, yn un uchelgeisiol ac arloesol sy'n benderfynol o ddatblygu perthnasoedd rhyngwladol cryf ar yr un pryd â dangos ei hymrwymiad i Gymru.

Mae'r **Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC)** yn rhan o Ymchwil ac Arloesi yn y DU, sef sefydliad newydd sy'n dwyn ynghyd y saith cyngor ymchwil yn y DU, Innovate UK a Research England i gynyddu cyfraniad pob cyngor i'r eithaf a chreu'r amgylchedd gorau er mwyn i ymchwil ac arloesedd ffynnu.

**Llywodraeth Cymru** yw llywodraeth ddatganoledig Cymru sy'n gyfrifol am feysydd allweddol bywyd cyhoeddus, gan gynnwys iechyd, addysg, llywodraeth leol, a'r amgylchedd.

# Cynnwys


**Cyflwyniad** **4**

**Proffil o weithlu 'sectorau'r economi sylfaenol'** **4**

**Proffil o'r gweithlu 'cyflog isel'** **8**

**Cyfeiriadau** **15**

**Ffynonellau data** **16**

# Cyflwyniad

Mae'r atodiad technegol hwn yn cyd-fynd ag adolygiad o dystiolaeth Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru *'Hybu Camu Ymlaen mewn Swydd mewn Sectorau Cyflog Isel'*. Yma, rydym yn crynhoi'r dadansoddiad o ddata a gynhaliwyd i lywio'r adolygiad, sy'n cynnwys proffiliau (i) y gweithlu sy'n cynrychioli'r pedwar sector sylfaenol allweddol a amlygwyd yn nogfennau polisi allweddol Llywodraeth Cymru, a (ii) y gweithlu a gynrychiolir gan y term cystadleuol 'sectorau cyflog isel'. Nid ydym yn ceisio cysoni'r ddau yma; yn hytrach, mae'r dadansoddiad yn dangos bod y ddau ddiffiniad yn cynnig ffyrdd dilys, sy'n gorgyffwrdd, o ddatblygu dealltwriaeth o'r bobl ledled Cymru a allai elwa o gymorth rhaglennol i gamu ymlaen mewn swydd.

# Proffil o weithlu 'sectorau'r economi sylfaenol'

Mae Llywodraeth Cymru wedi amlinellu ei bwriad i gefnogi camu ymlaen i waith graddfa uwch (i gyflawni cyflog uwch fesul awr), cynyddu oriau gwaith taledig a chynyddu sicrwydd swydd yn y *Cynllun Gweithredu ar yr Economi* (Llywodraeth Cymru, 2017) a'r *Cynllun Cyflogadwyedd* (Llywodraeth Cymru, 2018). Mae'r dogfennau hyn yn amlygu pedwar sector economi sylfaenol blaenoriaethol: gofal, twristiaeth, manwerthu a phrosesu bwyd.

## Diffinio'r sectorau economi sylfaenol blaenoriaethol

Lluniwyd y diffiniadau ymarferol canlynol gan ddefnyddio'r disgrifiadau naratif a roddwyd ar gyfer y sectorau hyn yn y ddwy ddogfen a diffiniadau ffurfiol a ddefnyddiwyd mewn mannau eraill. Er enghraifft, estynnwyd y sector 'bwyd' i gynnwys gweithgynhyrchu diodydd yn unol â Bwrdd y Diwydiant Bwyd a Diodydd. Mae'r diwydiant 'twristiaeth' wedi cael ei ddiffinio gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) (e.e. ONS, 2016). Fodd bynnag, o ystyried natur llawer o'r safleoedd sy'n ymwneud â gweithgareddau gwasanaethau bwyd a diod, mae'r rhain wedi cael eu cynnwys yn yr un grŵp â 'manwerthu'.

### Tabl 1: Diffiniadau Ymarferol o Sectorau Economi Sylfaenol Blaenoriaethol Llywodraeth Cymru


| Sector | Diffiniad a Disgrifiad SIC 2007 | |
|---|---|---|
| Manwerthu, gan gynnwys gweithgareddau gwasanaethau bwyd a diod | 47 | Masnach fanwerthu, heblaw am gerbydau modur a beiciau modur |
| | 56 | Gweithgareddau gwasanaethau bwyd a diod |
| Twristiaeth, heblaw am weithgareddau gwasanaethau bwyd a diod | 55 | Llety i ymwelwyr |
| | 49.10, 49.32, 49.39, 50.10, 50.30, 51.10/1, 51.10/2 | Cludo teithwyr |
| | 77.11, 77.34/1, 77.35/1 | Rhentu offer trafnidiaeth |
| | 79.11, 79.12, 79.90/1, 79.90/9 | Asiantaethau teithio a gweithgareddau gwasanaethau archebu eraill |
| | 90.01, 90.02, 90.03, 90.04, 91.02, 91.03, 91.04 | Gweithgareddau diwylliannol |
| | 92, 93.11, 93.19/9, 93.21, 93.29, 77.21 | Chwaraeon a gweithgareddau hamdden |
| | 82.30/1, 82.30/2, 68.20/2 | Gweithgareddau twristiaeth nodweddiadol penodol i wlad |
| Gweithgynhyrchu Bwyd a Diod | 10 | Gweithgynhyrchu cynhyrchion bwyd |
| | 11 | Gweithgynhyrchu cynhyrchion diod |
| Iechyd a Gofal Cymdeithasol | 86 | Gweithgareddau iechyd dynol |
| | 87 | Gweithgareddau gofal preswyl |
| | 88 | Gweithgareddau gwaith cymdeithasol heb lety |

## Proffil o'r pedwar sector economi sylfaenol blaenoriaethol

Yn 2017, roedd oddeutu 24,790 o fentrau ym meysydd manwerthu, twristiaeth, gofal a bwyd[1], yr oedd 19,780 (80%) ohonynt yn ficrofentrau (0-9 o weithwyr). Roedd gan ychydig dros un o bob chwech (18%, 4,415) rhwng 10 a 49 o weithwyr; roedd 475 (2%) yn fentrau maint canolig yn cyflogi 50 i 249 o bobl, ac roedd 0.3% yn cyflogi mwy na 250 o bobl (80 o fentrau). Mae'r rhan fwyaf o fusnesau mawr yn nwylo preifat, ond amcangyfrifir bod oddeutu 25 menter sector cyhoeddus o fewn y sectorau hyn. Mae cyflogwyr sector cyhoeddus mawr yn cynnwys y saith bwrdd iechyd ac awdurdodau lleol sy'n ymwneud â darparu gofal cymdeithasol heb lety.

[1] Gellir meddwl am fenter fel y busnes cyffredinol, sy'n cynnwys yr holl safleoedd neu weithleoedd unigol. Fe'i diffinnir fel y cyfuniad lleiaf o unedau cyfreithiol (yn seiliedig ar gofnodion TAW a/neu PAYE fel arfer) sydd â rhywfaint o ymreolaeth o fewn grŵp menter.

## Ffigur 1: Mentrau yn Economi Sylfaenol Blaenoriaethol Cymru, yn ôl maint




Ffynhonnell: Cyfrifiadau Busnes y DU, 2017, NOMIS (cafwyd ar 13/03/18).


Nodiadau: Daearyddiaeth = Cymru. Mae'r holl ffigurau wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf.

Mae bron hanner o'r 80 o fentrau mawr yn y pedwar sector yn darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae oddeutu dwy ran o dair o'r microfusnesau yn fanwerthwyr (13,300, 67%). Mae'r sector manwerthu hefyd yn cynnwys y gyfran uchaf o ficrofentrau yn ôl sector – mae 85% o'r 15,600 amcangyfrifedig o fentrau manwerthu yn cyflogi llai na 10 o bobl, ac mae bron dwy ran o dair o fentrau yn y sector gofal yn perthyn i'r band maint hwn.

Mae oddeutu un o bob pump o fentrau yn yr economi sylfaenol yn fusnes bach a chanolig (BBaCh) sy'n cyflogi rhwng 10 a 249 o bobl. Mae'r gyfran uchaf o BBaChau (36%) yn y sector gofal tra bod 15% yn unig yn y sector manwerthu.

Mae tair nodwedd arwyddocaol yn amlwg o ran cyfansoddiad y sector. Mae'r rhain yn bwysig ar gyfer ystyried sut gallai modelau camu ymlaen mewn swydd gael eu cymhwyso a pha sectorau allai fod yn briodol i hybu camu ymlaen mewn swydd. Yn gyntaf, y sectorau gofal a manwerthu yw'r mwyaf o ran nifer y gweithwyr (Ffigur 2). Yn ail, mae'r sectorau economi sylfaenol wedi'u ffurfio'n bennaf o ficrofusnesau, a gallai fod yn fwy anodd i'r cyflogwyr hynny ddod o hyd i'r adnoddau i weithredu mentrau camu ymlaen mewn swydd.

## Ffigur 2: Cyflogaeth yn ôl Patrwm Gweithio yn Sectorau Economi Sylfaenol Blaenoriaethol Cymru




Ffynhonnell: Arolwg Cofrestr Busnes a Chyflogaeth (BRES), 2017, NOMIS (cafwyd ar 01/10/18)

Nodiadau:
Yr Arolwg Cofrestr Busnes a Chyflogaeth (BRES) yw'r ffynhonnell swyddogol o amcangyfrifon gweithwyr a chyflogaeth yn ôl daearyddiaeth a diwydiant manwl. Fodd bynnag, nid yw'n cynnwys busnesau bach iawn nad ydynt wedi'u cofrestru ar gyfer TAW na Thalu Wrth Ennill (PAYE), sy'n ffurfio rhan fach o'r economi. Mae BRES yn cynnwys gweithwyr hunangyflogedig (yn yr amcangyfrifon cyflogaeth) ar yr amod eu bod wedi'u cofrestru ar gyfer TAW neu gynlluniau PAYE. Nid yw'n cynnwys pobl hunangyflogedig nad ydynt wedi'u cofrestru ar gyfer y rhain, na lluoedd arfog EM a hyfforddeion a gefnogir gan y llywodraeth. Daearyddiaeth = Cymru. Mae'r holl ffigurau wedi'u talgrynnu i'r 50 agosaf.

Amcangyfrifir bod cyfanswm nifer y gweithwyr ar draws y pedwar sector hyn yn dod i oddeutu 475,000. Mae hyn yn gyfystyr ag oddeutu 38% o'r 1,241,000 o weithwyr yng Nghymru. Mae ychydig dros hanner o'r rhai a gyflogir yn y pedwar sector hyn yn gweithio llai na 30 awr yr wythnos (51%). Fodd bynnag, mae'r gyfran yn amrywio yn ôl sector, gydag 8% yn unig o weithwyr yn y sector gweithgynhyrchu bwyd a diodydd yn gweithio'n rhan-amser. Mae hyn yn cymharu â chyfartaledd o 61% ar draws manwerthu a thwristiaeth. Mae 43% o weithwyr rhan-amser yn y sector gofal.

Yn ogystal, amcangyfrifir bod oddeutu 14,600 o berchenogion gweithio (er enghraifft, unig berchenogion a phartneriaid) yn y sectorau economi sylfaenol sy'n cael eu hadolygu, y mae'r mwyafrif ohonynt yn gweithio ym maes manwerthu (10,000, 69%).

# Proffil o’r gweithlu ‘cyflog isel’

## Diffinio sectorau cyflog isel

Mae’r Comisiwn Cyflog Isel (LPC) yn ystyried sectorau cyflog isel, a ddiffinnir ganddo fel galwedigaethau neu weithwyr sy’n cynnwys nifer neu gyfran uchel o weithwyr cyflog isel yn seiliedig ar y codau dosbarthiad galwedigaethol safonol (SOC) a SIC a gyhoeddir gan yr ONS (LPC, 2017). Fel y cyfryw, mae ganddo ddau ddiffiniad ar wahân o sectorau cyflog isel - un wedi’i seilio ar ddiwydiannau ac un ar alwedigaethau. Defnyddir y rhain wrth gynnal dadansoddiad manwl o sectorau cyflog isel gan ddefnyddio data arolwg fel yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE) a’r Arolwg o’r Llafurlu (LFS). O ystyried y pwyslais ar Gymru yn y dadansoddiad hwn, defnyddiwyd yr Arolwg Blynyddol o’r Boblogaeth (APS) gan ei fod yn fersiwn fanylach o’r LFS.

### Tabl 2: Sectorau cyflog isel, yn ôl Codau SOC a SIC

| Diwydiant / Galwedigaeth Cyflog Isel | Diffiniad o'r Alwedigaeth | Diffiniad o'r Diwydiant | |
|---|---|---|---|
| | SOC 2010 | SIC 2007 | Sectorau Economi Sylfaenol Blaenoriaeth |
| Manwerthu | 1254, 5443, 7111, 7112, 7114, 7115, 7123-7125, 7130, 7219, 925 | 45, 47, 77.22, 95.2 | 47 = Manwerthu |
| Lletygarwch | 5434, 5435, 9272-9274 | 55, 56 | 55 = Llety (Twristiaeth)<br>56 = Gwasanaethau Bwyd a Diod (yn yr un grŵp â Manwerthu, ond yn rhan o ddiffiniad yr ONS o Dwristiaeth) |
| Gofal Cymdeithasol | 6145, 6146, 6147 | 86.10/2, 87, 88.1, 88.99 | 86 i 88 = Gofal |
| Gofal plant | 6121-6123, 9244 | 85.1, 88.91 | 88.91 = Gofal |
| Prosesu bwyd | 5431-5433, 8111, 9134 | 10 | Gydag 11 = Gweithgynhyrchu Bwyd a Diod |
| Hamdden, teithio a chwaraeon | 3413, 3441, 3443, 6131, 6139, 6211, 6212, 6219, 9275, 9279 | 59.14, 92, 93 | 92 a rhan o 93 = Twristiaeth |
| Glanhau a chynnal a chadw | 6231, 6232, 6240, 9132, 9231, 9233-9236, 9239 | 81.2, 96.01 | - |
| Amaethyddiaeth | 5112-5114, 5119, 9111, 9119 | 01, 03 | - |
| Tecstilau a dillad | 5411, 5414, 5419, 8113, 8137 | 13, 14 | - |
| Trin gwallt | 622 | 96.02, 96.04 | - |
| Gwaith swyddfa | 4129, 4133, 4216, 7213, 9219 | - | - |
| Gwaith nad yw'n ymwneud â phrosesu bwyd | 8112, 8115-8116, 8119, 8121, 8125, 8127, 8131, 8134, 8139, 9120, 9139 | - | - |
| Storio | 9260 | - | - |
| Trafnidiaeth | 5231, 8135, 8212, 8214 | - | - |
| Canolfannau galwadau | 7113, 7211 | - | - |
| Diogelwch | 7122, 9241, 9242 | 80.1 | |
| Asiantaethau cyflogaeth | - | 78.10/9, 78.2 | - |
| Bwyd cyfanwerthu, gan gynnwys asiantau | - | 46.1, 46.2, 46.3 | - |

Addaswyd o’r Comisiwn Cyflog Isel, 2017

Mae gan y ddau ddiffiniad gyfyngiadau. Yn nodedig, mae'r diffiniad wedi'i seilio ar ddiwydiant yn cynnwys pobl mewn swyddi rheoli a phroffesiynol cyflog uchel na fyddant o reidrwydd yn derbyn cyflog isel, tra bod diffiniadau galwedigaethol yn gallu canolbwyntio mwy ar swyddi cyflog isel penodol. Yn ddelfrydol, byddai dadansoddiad o enillion a chyflogaeth wedi'i seilio ar ddiffiniadau galwedigaethol. Fodd bynnag, gan fod amcangyfrifon wedi'u seilio ar ddata arolwg, gallant fod yn anwadal ar lefel Cymru gyfan. Cyfyngir ymhellach ar y potensial i ddadansoddi gan yr hyn sydd ar gael yn gyhoeddus. Mae'r holl ddata a gyflwynir yma wedi dod o NOMIS gan ei fod yn caniatáu nodi ymholiadau hyd at godau SIC 4 digid.

## Proffil o sectorau cyflog isel

Byddai'r ymagwedd economi sylfaenol yn canolbwyntio ar ystyried gweithwyr cyflog isel sydd â diffyg cyfleoedd i gamu ymlaen, er enghraifft mewn rolau gofal cartref, cartref gofal a chynorthwy-ydd gofal iechyd yn y GIG, sy'n golygu bod angen ymagwedd wedi'i seilio ar alwedigaeth. Fodd bynnag, mae llunwyr polisi a grwpiau rhanddeiliaid yn tueddu i fod wedi'u seilio ar ddiwydiant. O ganlyniad, defnyddir y ddau ddiffiniad yma i roi syniad o faint a strwythur cyflogaeth yn y sectorau cyflog isel, gan ganolbwyntio'n benodol ar y pedwar sector economi sylfaenol a amlygwyd gan Lywodraeth Cymru. Fel y mae Tabl 2 yn ei ddangos, mae'r diffiniad o sectorau cyflog isel yn ehangach na phwyslais Llywodraeth Cymru ar y sectorau economi sylfaenol, sef gofal, twristiaeth, manwerthu a phrosesu bwyd. Mae Tabl 3 yn dadansoddi'r niferoedd amcangyfrifedig a gyflogir mewn galwedigaethau cyflog isel a'r sectorau economi sylfaenol.


### Tabl 3: Gweithwyr Cyflog Isel yng Nghymru (Diffiniad SOC 2010)

| Galwedigaethau cyflog isel | Cyflogaeth Amcangyfrifedig yng Nghymru |
|---|---|
| Manwerthu | 110,100 |
| Lletygarwch | 65,600 |
| Gofal cymdeithasol | 48,100 |
| Glanhau a chynnal a chadw | 39,700 |
| Gwaith nad yw'n ymwneud â phrosesu bwyd | 30,000 |
| Trafnidiaeth | 25,200 |
| Gwaith swyddfa | 24,900 |
| Prosesu bwyd | 20,400 |
| Amaethyddiaeth | 19,300 |
| Storio | 16,500 |
| Hamdden, teithio a chwaraeon | 16,300 |
| Gofal plant | 13,700 |
| Trin gwallt | 9,600 |
| Diogelwch | 8,500 |
| Canolfannau galwadau | 6,900 |
| Tecstilau a dillad | 4,500 |
| **Pob galwedigaeth cyflog isel** | **459,300** |
| Sectorau Economi Sylfaenol Cymru | 274,200 |
| Cyfanswm ar draws pob galwedigaeth | 1,435,000 |

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Ebrill 2017 – Mawrth 2018, NOMIS (cafwyd ar 01/10/2018) yn seiliedig ar ddiffiniadau a ddarparwyd gan y Comisiwn Cyflog Isel. Nodiadau: Daearyddiaeth = Cymru. Mae'r holl ffigurau wedi'u talgrynnu i'r 100 agosaf.

Yn seiliedig ar y diffiniad galwedigaethol, o'r 459,300 o bobl mewn galwedigaethau cyflog isel yng Nghymru, amcangyfrifir bod 274,200 yn cael eu cyflogi mewn galwedigaethau sy'n gysylltiedig â'r rhai hynny yn y pedwar sector economi sylfaenol (wedi'u tywyllu yn Nhabl 3). Fodd bynnag, pan ystyrir galwedigaethau unigol, mae'n amlwg nad yw rhai o'r rhain yn cyfateb i rolau y byddem fel arfer yn eu cysylltu â manwerthu, bwyd, twristiaeth a gofal. Er enghraifft, mae'r galwedigaethau sy'n dod o dan hamdden, teithio a chwaraeon yn cynnwys nyrsys milfeddygol a gwasanaethau gofal anifeiliaid. O ganlyniad, mae angen cydnabod bod cyfyngiadau'n berthnasol i ddefnyddio ymagwedd wedi'i seilio ar alwedigaeth hefyd, a bod yr amcangyfrif o 274,200 o bobl a gyflogir mewn galwedigaethau cyflog isel yn y pedwar sector economi sylfaenol yn annhebygol o adlewyrchu'r gwir ffigur. Mae'r amcangyfrif o 274,200 yn gyfystyr â chwech o bob deg (60%) o bobl mewn galwedigaethau cyflog isel a bron un o bob pump (19%) o'r holl swyddi yng Nghymru. Cyflogir y gyfran uchaf o'r rhain ym meysydd manwerthu ac iechyd a gofal cymdeithasol (Ffigur 3).


### Ffigur 3: Gweithwyr Cyflog Isel yn y Pedwar Sector Economi Sylfaenol Blaenoriaethol yng Nghymru




Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Ebrill 2017 – Mawrth 2018, NOMIS (cafwyd ar 01/10/2018) yn seiliedig ar ddiffiniadau a ddarparwyd gan y Comisiwn Cyflog Isel. Nodiadau: Daearyddiaeth = Cymru. At ddibenion y crynodeb hwn, mae manwerthu wedi cael ei gyfuno â lletygarwch; mae twristiaeth wedi'i seilio ar hamdden, teithio a chwaraeon. Mae iechyd a gofal cymdeithasol yn cynnwys pobl mewn galwedigaethau gofal cymdeithasol a gofal plant heblaw am addysg cyn-gynradd.

Mae Ffigur 4 yn dadansoddi'r ddau ryw yn ôl grwpiau galwedigaethol. Menywod yw'r mwyafrif ym mhob un o'r sectorau economi sylfaenol, heblaw am weithgynhyrchu bwyd a diod. Mae 53% o'r bobl sy'n gweithio mewn galwedigaethau cyflog isel yn fenywod. Fodd bynnag, mae'r gyfran yn cynyddu i 65% ar draws y sectorau sy'n cael eu blaenoriaethu gan Lywodraeth Cymru. O gymharu, y cyfartaledd ar draws pob galwedigaeth yng Nghymru yw 47%. Mae hyn yn gyson â'r canfyddiad bod menywod wedi'u gorgynrychioli mewn galwedigaethau cyflog isel (ONS 2013).

## Ffigur 4: Cyfansoddiad Gweithwyr Cyflog Isel yn ôl Rhywedd (Diffiniad SOC 2010)




Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Ebrill 2017 – Mawrth 2018, NOMIS (cafwyd ar 01/10/2018) yn seiliedig ar ddiffiniadau a ddarparwyd gan y Comisiwn Cyflog Isel. Nodiadau: Daearyddiaeth = Cymru[2].

Mae data a gasglwyd yn rhan o'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE) yn rhoi trosolwg o weithwyr yn ôl grŵp galwedigaethol, cyfansoddiad rhywedd, patrwm gweithio a chyflog. Fodd bynnag, gan fod y ffigurau hyn wedi'u seilio ar arolwg, nid ydynt yn cyfateb i'r ffigurau sydd wedi'u seilio ar yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth. Er hynny, maen nhw'n rhoi gwybodaeth ddangosol am gyflog nodweddiadol mewn sectorau cyflog isel, o gymharu â'r cyfartaledd yng Nghymru.

Yn 2017, y cyflog wythnosol gros canolrifol ar gyfer pob gweithiwr amser llawn yng Nghymru, ni waeth beth fo'u galwedigaeth a'r diwydiant yr oeddent yn gweithio ynddo, oedd £498.40, a £181.40 ar gyfer gweithwyr rhan-amser. Yn nodweddiadol, mae dynion sy'n gweithio'n amser llawn yn ennill £67.50 yr wythnos yn fwy na menywod (£525.10 o gymharu â £457.60), tra

[2] Ar gyfer y crynodeb hwn, mae manwerthu wedi cael ei gyfuno â lletygarwch; mae twristiaeth wedi'i seilio ar hamdden, teithio a chwaraeon, heblaw am nyrsys milfeddygol a galwedigaethau gofal anifeiliaid. Mae iechyd a gofal cymdeithasol yn cynnwys pobl mewn galwedigaethau gofal cymdeithasol a gofal plant heblaw am addysg cyn-gynradd.

bod menywod sy'n gweithio'n rhan-amser yng Nghymru yn ennill £13.20 yn fwy na dynion (£185.50 o gymharu â £172.30), yn nodweddiadol. Mae Tabl 4 yn rhoi enghreifftiau o rolau yn y sectorau economi sylfaenol sy'n dangos graddau'r gwahaniaeth o ran cyflog wythnosol gros canolrifol yn ôl rhywedd a phatrwm gweithio.

### Tabl 4: Cyflog Wythnosol Gros Canolrifol ar gyfer Galwedigaethau Cyflog Isel Dethol

| | |
|---|---|
| **Gweithwyr gofal a gweithwyr gofal cartref** | |
| Mae tua 44% yn fenywod sy'n gweithio'n rhan-amser, 38% yn fenywod sy'n gweithio'n amser llawn. | Amcangyfrifir mai'r cyflog wythnosol gros canolrifol ar gyfer gweithwyr gofal amser llawn yw £347.20. Fodd bynnag, mae dynion sy'n gweithio'n amser llawn yn derbyn £366.1 ar gyfartaledd, tra bod menywod yn ennill £340.60. O gymharu, mae menywod sy'n gweithio'n rhan-amser yn derbyn £182.00 ar gyfartaledd. |
| **Gweithwyr prosesu bwyd, diod a thybaco** | |
| Mae'r mwyafrif yn cael eu cyflogi'n amser llawn | Amcangyfrifir mai'r cyflog wythnosol gros canolrifol ar gyfer pob gweithiwr amser llawn yw £320.60. Fodd bynnag, mae dynion sy'n gweithio'n amser llawn yn ennill £14.60 yn fwy na menywod sy'n gweithio'n amser llawn (£330.00 o gymharu â £315.40), yn nodweddiadol. |
| **Staff bar a gweini** | |
| Mae'r mwyafrif yn gweithio'n rhan-amser | Nid yw data ASHE yn rhoi manylion am y prif wahaniaethau cyflog rhwng y rhywiau ar gyfer y gweithwyr hyn, nac ar gyfer y rhai sy'n gweithio'n rhan-amser. Mae staff gweini sy'n gweithio'n amser llawn yn tueddu i dderbyn cyflog wythnosol gros canolrifol uwch na staff bar amser llawn (£313.10 o gymharu â £278.00). Fodd bynnag, amcangyfrifir bod gweinyddesau'n ennill £24.40 yn fwy na gweinyddion ar ôl didynnu treth ac ati - £335.00 o gymharu â £310.60 pan fyddant yn gweithio mwy na 30 awr yr wythnos. |
| **Cynorthwywyr gwerthu a manwerthu** | |
| Mae tua 50% yn fenywod sy'n gweithio'n rhan-amser. Mae un o bob chwech yn ddynion sy'n gweithio'n rhan-amser. Mae gweithwyr amser llawn wedi'u rhannu'n gyfartal o ran rhywedd. | Amcangyfrifir mai'r cyflog wythnosol gros canolrifol ar gyfer pob gweithiwr amser llawn yw £337.60. Fodd bynnag, mae dynion sy'n gweithio'n amser llawn yn ennill £24.30 yn fwy na menywod sy'n gweithio'n amser llawn (£347.50 o gymharu â £323.20), yn nodweddiadol. Mae dynion sy'n gweithio'n rhan-amser yn ennill £167.20 yr wythnos ar gyfartaledd, tra bod menywod yn ennill £149.30 – gwahaniaeth o £17.90. |

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE): Canlyniadau dros dro 2017 a chanlyniadau diwygiedig 2016, Tabl 15.1a, ar gyfer galwedigaethau dethol yng Nghymru

Mae dadansoddiad arall o rywedd a phatrymau gweithio'n cadarnhau dadansoddiadau 'cyflenwad swyddi' cynharach sydd wedi dangos nad oes llawer o gyfleoedd i weithio'n amser llawn mewn galwedigaethau sydd wedi'u benyweiddio (Parken, Pocher a Davies, 2014), ac y gallai gweithwyr droi at greu portffolio o swyddi rhan-amser i gynyddu eu henillion (Parken ac Ashworth, 2018).

# Cyfeiriadau


Comisiwn Cyflog Isel (2017) **National Minimum Wage: Low Pay Commission Report 2017.** Adalwyd o: **https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/661195/Low_Pay_Commission_2017_report.pdf**

Llywodraeth Cymru (2017), **Ffyniant i Bawb: Y Cynllun Gweithredu ar yr Economi.** Adalwyd o: **https://gov.wales/docs/det/publications/171213-economic-action-plan-cy.pdf**

Llywodraeth Cymru (2018), **Ffyniant i Bawb: Cynllun Cyflogadwyedd.** Adalwyd o: **https://gov.wales/docs/dcells/publications/180319-employability-plan-cy.pdf**

ONS (2016), **The Regional Value of Tourism in the UK: 2013**. Adalwyd o: **https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/leisureandtourism/articles/theregionalvalueoftourismintheuk/2013/pdf**

ONS (2017), **Annual Survey of Hours and Earnings: 2017 provisional and 2016 revised results.** Adalwyd o: **https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/bulletins/annualsurveyofhoursandearnings/2017provisionaland2016revisedresults**

Parken. A., ac Ashworth, R. (2018). '**From evidence to action: Applying gender mainstreaming to pay gaps in the Welsh public sector'.** *Gender Work Organ*. 2018, 1–20. **https://doi.org/10.1111/gwao.12239**

Parken, A., Pocher, E. a Davies, O. R. (2014) *Working patterns in Wales: gender, occupations and pay.* Adroddiad ar y Farchnad Lafur ar gyfer y Rhaglen Menywod yn Ychwanegu Gwerth at yr Economi (WAVE) **http://www.cardiff.ac.uk/__data/assets/pdf_file/0014/104603/Working-Patterns-In-Wales.pdf**

# Ffynonellau data

Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (2018). **Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth – Rhanbarthol – Cyflogaeth yn ôl Galwedigaeth (mis Ebrill 2017 hyd at fis Mawrth 2018).** Cafwyd o NOMIS 1 Hydref 2018

Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE) (2017). **Rhanbarth yn ôl Galwedigaeth (SOC 4 digid) - ASHE: Tabl 15.1a** Adalwyd o: **https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/datasets/regionbyoccupation4digitsoc2010ashetable15**

Arolwg Cofrestr Busnes a Chyflogaeth (BRES) (2018). **Arolwg Cofrestr Busnes a Chyflogaeth: Mynediad Agored (2016 i 2017).** Cafwyd o NOMIS 1 Hydref 2018

Cyfrifiadau Busnes y DU (2017). **Cyfrifiadau Busnes y DU – mentrau yn ôl diwydiant a maint cyflogaeth.** Cafwyd o NOMIS 13 Mawrth 2018.

## Manylion yr Awduron

Mae **Helen Hodges** yn Swyddog Ymchwil yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Mae **Dr Jonathan Webb** yn Swyddog Ymchwil yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Mae **Dr Alison Parken** yn arbenigwraig annibynnol, a arweiniodd y prosiect Menywod yn Ychwanegu Gwerth at yr Economi (WAVE) yn flaenorol.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
**Jonathan Webb**
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru
+44 (0) 29 2087 5345
info@wcpp.org.uk

OGL This report is licensed under the terms of the Open Government License

Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru